TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Rhagfyr 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth, a ddaeth i sylw tîm Llywodraethu Corfforaethol TrC yn dilyn eich cyswllt cychwynnol â'r tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.


**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *'...Hoffwn wybod pam nad oes buddsoddiad wedi'i wneud ar gyfer rheilffordd Bro Morgannwg. Mae dau wasanaeth ychwanegol mewn dwy flynedd a thair blynedd yn wael iawn y dyddiau hyn.'*

**Ar ôl adolygu eich cwestiwn, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

**<u>Statws Presennol</u>**
Ar hyn o bryd, mae dau drên yr awr yn rhedeg ar hyd Rheilffordd Bro Morgannwg o Orsaf y Barri i Aberdâr, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 1. Mae Rheilffordd Bro Morgannwg mewn melyn. Mae pedwar trên yr awr yn rhedeg rhwng Grangetown a'r Barri, ac mae un trên yr awr yn rhedeg ar hyd y rheilffordd o'r Barri i Ben-y-bont ar Ogwr, ac o'r Barri i Ynys y Barri. Mae'r gwasanaeth o'r Barri i Ynys y Barri hefyd yn cael ei ategu gan Reilffordd Merthyr (mewn pinc) gyda dau drên arall yr awr, sy'n dod â chyfanswm y trenau yr awr rhwng y Barri ac Ynys y Barri i dri. Mae rheilffordd Rhymni, mewn porffor, yn gwasanaethu Penarth gyda phedwar trên yr awr.

<u>Ffigur 1.</u>



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

[Parhad]


**<u>Trawsnewid Metro</u>**

Mae Ffigurau 2 - 4 yn dangos y ddarpariaeth Metro sydd wedi'i hymrwymo ar gyfer Rheilffordd Bro Morgannwg. Mae'n amlinellu ein hymrwymiad i gael pum trên yr awr rhwng Grangetown a'r Barri, tri thrên yr awr rhwng y Barri ac Ynys y Barri, a dau drên yr awr rhwng y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr pan fydd y gwaith trawsnewid wedi'i gwblhau a phan fydd fflydoedd newydd yn cael eu cyflwyno. Yn ogystal â gwasanaeth yn fwy aml, bydd ein fflyd newydd yn darparu capasiti uwch o tua 40% (yn seiliedig ar y dybiaeth ar hyn o bryd, fod trenau oriau brig yn cael eu gweithredu gan wasanaeth dau-drên pedwar-cerbyd yr awr (er, yn ymarferol, dim ond dau gerbyd yw rhai gwasanaethau)).

Mae Ffigur 5 yn dangos enghraifft o unedau FLIRT Dosbarth 231 newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ar gyfer TrC gan y gweithgynhyrchwr cerbydau o'r Swistir, Stadler Rail, i redeg ar Reilffordd Bro Morgannwg.


Mae ein gwefan yn nodi'r amserlen wreiddiol ar gyfer cwblhau ein prif weithgareddau ar gyfer Metro De Cymru: [Beth sy'n Digwydd yn Ne Ddwyrain Cymru | TrC](#) . Fodd bynnag, mae'r dyddiad y bydd y gwaith trawsnewid yn cael ei gwblhau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, gan fod pandemig y Coronafeirws wedi effeithio'n sylweddol ar ein gwaith o gynllunio gweithgareddau'r Metro.

<u>Ffigur 2.</u>




[Parhad]

Ffigur 3.




Ffigur 4.



[Parhad]

Ffigur 5.



**Blaenoriaethau Rhaglen y Metro hyd at 2029**
Mae Rheilffordd Bro Morgannwg yn rhan o'r hyn a elwir yn 'goridor blaenoriaeth' o fewn Fframwaith Gwelliannau'r Metro ar gyfer y rhanbarth. Felly, bydd yn elwa o un o'r tair astudiaeth coridor strategol yn unig a fydd yn dod â chynlluniau parhaus a phartneriaid cyflenwi ar y cyd at ei gilydd i gyflwyno'r achos gorau posibl dros fuddsoddi yn y Metro. Rydyn ni wedi gweithio'n galed i fabwysiadu dull gweithredu cytbwys wrth ystyried darparu pedwar trên yr awr drwy asesu'n ofalus pa wasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, beth sydd wedi'i ymrwymo nawr o'i gymharu â'r hyn sydd ei angen; gan gydnabod bod angen gwasanaeth pedwar trên yr awr ar rannau eraill o'r Metro yn y rhanbarth hwn.

Mae rhaglen drawsnewid y Metro yn mynd ymhell y tu hwnt i'r rheilffyrdd. Bydd y Metro yn ei gwneud hi'n haws i deithio, boed ar y trên, y bws, y beic neu ar droed. Bydd yn rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gwbl integredig, cyfleus a chyflawn a fydd yn galluogi pobl i deithio ledled Cymru yn ddidrafferth. Bydd y Metro yn newid y ffordd rydyn ni'n teithio a bydd yn creu rhwydweithiau modern a chynaliadwy ar gyfer bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol (beicio a cherdded), a fydd yn trawsnewid bywydau pobl ac yn lleihau effaith amgylcheddol ein rhwydwaith trafnidiaeth yn gyffredinol. Bydd hefyd yn arwain at amrywiaeth o gyfleoedd gwaith, hamdden a busnes, gan drawsnewid rhagolygon economaidd Cymru yn y dyfodol.

Ym mis Hydref, siaradodd Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (sy'n gyfrifol am drafnidiaeth yng Nghymru) yn gyhoeddus am natur uchelgeisiol a chymhleth rhaglen y Metro; gan gyflwyno cyfres o fapiau newydd sy'n dangos y cynlluniau tymor byr a thymor hwy uchelgeisiol y bydd y rhaglen yn eu cyflawni i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis amlwg a hawdd ar gyfer teithio, gan ysbrydoli pobl i symud oddi wrth ddefnyddio car preifat, a helpu Cymru i gyrraedd ei tharged carbon Sero Net erbyn 2050. Mae cyhoeddiad y Dirprwy Weinidog yn llawn ar gael yma.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".